**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU NEWID SEFYDLIADOL**
**29 IONAWR 2018**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Newid Sefydliadol Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora Delyn, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug ddydd Llun, 29 Ionawr 2018.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Dave Mackie (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Janet Axworthy, Marion Bateman, Sean Bibby, Geoff Collett, Ian Dunbar, Mared Eastwood, Veronica Gay, Tudor Jones, Brian Lloyd, Mike Reece, Paul Shotton a David Wisinger

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Gwahoddwyd Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol a Iechyd ar gyfer Eitem 4 ar y Rhaglen: Y Cynghorwyr: Carol Ellis, Andy Dunbobbin, Kevin Hughes, Mike Lowe, Hilary McGuill a Martin White

Mynychodd y Cynghorydd Patrick Heesom fel sylwedydd

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Aaron Shotton, Arweinydd ac Aelod Cabinet Cyllid; Y Cynghorydd Christine Jones, Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol; Prif Swyddog (Newid Sefydliadol 1); Prif Swyddog (Newid Sefydliadol 2); Uwch Reolwr – Gwasanaethau Integredig ac Arweinydd Oedolion; a Rheolwr Comisiynu

**HEFYD YN BRESENNOL:** Hwylusydd Trosolwg a Chraffu a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

## 40. DATGAN CYSYLLTIAD

Ni dderbyniwyd dim.

## 41. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynwyd y Rhaglen Gwaith I'r Dyfodol gyfredol i'w hystyried. Wedi gwaith manwl ar Fodelau Darparu Amgen a Throsglwyddiadau Asedau Cymunedol dros y blynyddoedd diwethaf, mae tair blaenoriaeth wedi eu nodi. Rhoddodd y Prif Swyddogion (Newid Sefydliadol) drosolwg o'r blaenoriaethau hyn o fewn eu meysydd hwy:

Gwytnwch Cymunedol

Croesawodd y Cynghorydd Paul Shotton fentrau 'rhagnodi cymdeithasol' lle gallai cyfeirio pobl at grwpiau a gweithgareddau hyrwyddo byw'n iach a chynorthwyo i ostwng y pwysau ar y Gwasanaeth Ambiwlans.

Dywedodd y Prif Swyddog (Newid Sefydliadol 1) mai bwriad y flaenoriaeth hon oedd gwneud y mwyaf o gyfleoedd ar gyfer gwytnwch cymunedol drwy weithio gyda phartneriaid y sector cyhoeddus. Roedd yr elfen 'rhagnodi cymdeithasol' yn cynnwys creu llwybrau y tu allan i leoliadau gofal cymdeithasol

er mwyn annog trigolion i gael mynediad at rwydwaith o gyfleoedd a chynorthwyo i atal problemau iechyd.

Darparwyd gwybodaeth ychwanegol gan yr Uwch Reolwr – Gwasanaethau Integredig ar ddatblygiad y Pwynt Mynediad Sengl i gynorthwyo meddygon teulu drwy atgyfeirio at amrywiol weithgareddau cymunedol. Cyfeiriodd hefyd at y gwaith sydd ar y gweill ar y Cynllun Heneiddio'n Dda

Dywedodd y Cadeirydd y gallai Meddygon Teulu wneud mwy i atgyfeirio unigolion at fentrau a gweithgareddau iach fel grwpiau cerdded lleol.

Rhoddodd y Prif Swyddog (Newid Sefydliadol 2) esiamplau o dechnoleg newydd a allai gael ei ddefnyddio i gynorthwyo pobl ddiamddiffyn yn eu cartrefi eu hunain.

Ar y pwynt olaf, dywedodd y Cynghorydd Ellis y byddai angen eglurhad manwl ar ddefnydd dyfeisiadau o'r fath. Nododd fod gan rai wardiau nifer tipyn is o drigolion hŷn ac y byddai o gymorth i Aelodau lleol dderbyn cyswllt swyddog penodedig y gallent atgyfeirio materion atynt.

<u>Strategaeth Ddigidol a Gwasanaethau Cwsmeriaid</u>

Mewn ymateb i bryderon gan rai Aelodau, eglurodd y Prif Swyddog (Newid Sefydliadol 1) mai nod y Strategaeth Ddigidol oedd annog a gwella cyswllt digidol ar gyfer y rheiny oedd yn dyheu amdano. Roedd y trosolwg cwsmer digidol oedd yn atodedig i'r adroddiad yn arddangos cread cyfrif cwsmer. Byddai'r dull gweithredu hwn yn helpu i wella cyfleoedd i unigolion eraill yr oedd yn well ganddynt ffyrdd mwy traddodiadol o gyswllt, er enghraifft ar y ffôn neu wyneb yn wyneb. Rhoddwyd sicrwydd y byddai'r opsiynau yn dal i fod ar gael i fodloni anghenion yr holl gwsmeriaid.

Siaradodd y Cynghorydd Gay am rôl yr 'asiantwyr cymuned' yr oedd hi'n deimlo y gellid eu harchwilio ar gyfer Sir y Fflint . Mewn ymateb i bryderon am ddiffyg cyswllt di wifr mewn adeiladau cyhoeddus, cytunodd y Prif Swyddog i ymchwilio i ddarpariaeth yn Douglas Place yn Saltney. Dywedodd y dylai datblygiadau adeiladu cyhoeddus yn y dyfodol ystyried darpariaeth cyswllt di wifr ar gyfer y cyhoedd. Tra nad oedd gan y Cyngor reolaeth dros y rhaglen cyflwyno Band Eang, byddai cwsmeriaid yn dal i allu cael mynediad at y Cyngor drwy gysylltu ar y ffôn neu wyneb yn wyneb.

Gofynnodd y Cynghorydd McGuill a fyddai ehangu gwasanaethau digidol yn golygu oriau gweithio hirach i swyddogion. Dywedodd y Prif Swyddog y byddai angen nodi disgwyliadau trigolion er mwyn sefydlu sut gellid diwallu'r rhain yn rhesymol.

<u>Rhaglen Rhesymoli Asedau Eiddo'r Cyngor</u>

Awgrymodd y Cynghorydd Lloyd y dylid gohirio cynlluniau ar gyfer Neuadd y Sir hyd nes y byddai penderfyniad wedi ei wneud gan Lywodraeth Cymru ar ail drefnu llywodraeth leol. Dywedodd y Prif Swyddog (Newid Sefydliadol 2) bod angen gweithredu gan bod yr atebolrwydd cynnal a chadw sylweddol ar yr adeilad yn golygu nad yw'r sefyllfa bresennol yn gynaliadwy. Wedi cau cam 3 a 4

yr adeilad, roedd angen cynllunio yn ofalus i gyflawni'r model cywir o ran amgylchedd cyfoes a hyblyg.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd Ellis, dywedodd y Prif Swyddog mai yn y camau cynnar oedd y gwaith cynllunio a byddai'n golygu cryn dipyn o waith ar newid diwylliannol. Dros yr wythnosau nesaf, byddai ymgynghori gyda'r gweithlu a'r Undebau Llafur er mwyn bwydo i'r strategaeth trosfwaol.

Gofynnodd y Cynghorydd Reece am y defnydd posib o ofod yn Theatr Clwyd a rhoddwyd gwybod y byddai hyn yn cael ei ystyried fel rhan o'r Uwchgynllun ar gyfer safle Neuadd y Sir.

Wedi ymholiad gan y Cynghorydd Bibby, eglurwyd fod ardaloedd o asbestos wedi eu cofnodi yn Neuadd y Sir, ond bod 'profi aflonyddol' yn y broses ddymchwel yn debygol o nodi problemau pellach.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Rhaglen Waith i'r Dyfodol fel y cyflwynwyd, yn cael ei chymeradwyo; a

(b) Rhoi awdurdod i'r Hwylusydd Trosolwg a Chraffu, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor, amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen.

## 42. DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD I WYBODAETH) 1985 – YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD:**

Eithrio'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod gan fod yr eitem ganlynol yn cael ei hystyried yn wybodaeth wedi'i heithrio yn rhinwedd paragraff 14 Adran 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

## 43. DIWEDDARIAD MODELAU DARPARU AMGEN (GOFAL CYMDEITHASOL – GOFAL DYDD ANABLEDDAU DYSGU A CHYFLEODD GWAITH)

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Newid Sefydliadol 1) adroddiad diweddaru am y cynnydd wrth sefydlu Model Darparu Amgen ar gyfer Gofal Dydd Anableddau Dysgu a Chyfleoedd Gwaith.

Atgoffwyd pawb gan yr Uwch Reolwr – Gwasanaethau Integredig ac Arweinydd Oedolion mai amcan y Model Darparu Amgen oedd sefydlu gwasanaeth cynaliadwy drwy gomisiynu darparwr profiadol gyda gwerthoedd cymdeithasol. Siaradodd am rôl y Bwrdd Trawsnewid wrth oruchwylio'r prosiect ac ymwneud y defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd er mwyn sicrhau diwydrwydd dyladwy wrth gwblhau'r contract.

Diolchodd y Cynghorydd Aaron Shotton am y gwaith a wnaed gan swyddogion ac Aelodau. Dywedodd fod y Cyngor wedi gweld pwysigrwydd parhau i fuddsoddi yn y gwasanaeth gwerthfawr hwn, nad oedd yn ddyletswydd statudol. Byddai'r Model Darparu Amgen o gymorth i gefnogi datblygiad yr

adnodd newydd oedd i ddod yn lle'r ganolfan ddydd anableddau dysgu gyfredol yng Nglanrafon yn Queensferry.

Canmolodd yr Aelodau'r adroddiad a dywedwyd y dylid adrodd am y cynnydd yn y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.

Wrth ymateb i gwestiynau, rhoddodd swyddogion eglurhad ar amrywiaeth o faterion gan gynnwys mynediad at gyllid grant, y broses ddethol ar gyfer y darparwr gwasanaeth, ac amodau'r contract. Cyfeiriodd y Rheolwr Comisiynu at y dull gweithredu tryloyw o ran materion ariannol y bartneriaeth a chytunodd i ddarparu ymateb ar wahân ar werth y contract. Dywedodd yr Uwch Reolwr y byddai angen i'r Bwrdd Trawsnewid ystyried y trefniadau ar gyfer ymweliadau rota.

Talodd y Cynghorydd Christine Jones deyrnged i ymdrechion y tîm a'r ddau Brif Swyddog yn ystod y broses, a'r dull o gynnwys pawb oedd yn cynnwys defnyddwyr gwasanaeth, cydweithwyr Undebau Llafur a gweithwyr.

Roedd y Pwyllgor yn cefnogi cais y Cadeirydd i wneud newid mân i'r argymhelliad er mwyn adlewyrchu'r pwyntiau a wnaed.

**<u>PENDERFYNWYD:</u>**

(a) Bod y Pwyllgor yn nodi bod y Cyngor am barhau i gefnogi'r gwasanaeth ac yn cydnabod yr ymdrechion a wneir gan staff; a

(b) Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd sydd wedi ei wneud hyd yma, ac yn cefnogi'r cynnydd sydd wedi ei wneud o ran gweithredu'r Model Darparu Amgen ar gyfer Gofal Cymdeithasol – Gofal Dydd Anableddau Dysgu a Chyfleoedd Gwaith.

## 44. AELODAU'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd na'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10am a gorffennodd am 11.50am)

…………………………

**Cadeirydd**